Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd CF99 1NA

13 Medi 2019

Annwyl Llŷr,

Ddydd Mawrth 17 Medi, byddaf yn gwneud Datganiad Llafar yn y siambr ar Gylch Gwario Llywodraeth y DU a fydd yn sôn am y goblygiadau i Gymru a'r camau yr ydym fel llywodraeth yn eu cymryd i ymateb i ddull gweithredu anwadal Llywodraeth y DU o ran cyllid cyhoeddus.

Un maes rwyf yn dymuno bwrw goleuni arno yn dilyn y Cylch Gwario yw'r amserlen ar gyfer Cyllideb 2020-21. Yn unol â Rheol Sefydlog 20, cyn toriad yr haf, ysgrifennais at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes a chithau fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch y dyddiadau ar gyfer gosod y gyllideb ddrafft gerbron, a chyflwyno cynnig y gyllideb flynyddol. Nodais bryd hynny ein cynlluniau i gyhoeddi'r Cyllidebau Drafft amlinellol a manwl gyda'i gilydd ar 10 Rhagfyr, a'r Gyllideb derfynol ar 3 Mawrth 2020. Wrth bennu'r amserlenni hyn, roedd yn rhaid inni gynllunio gan dybio y byddai Llywodraeth y DU yn cadw at ei hymrwymiad i gyflwyno Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 3 blynedd yr hydref hwn. Fodd bynnag, nodais hefyd fod yr amserlenni hyn yn amodol ar y ddealltwriaeth y byddwn yn darparu amserlen gadarn cyn gynted â phosibl ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'i Chyllideb.

Er nad yw cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer Cyllideb yr Hydref yn dal yn glir i ni, rwy'n bwriadu dwyn ein cynlluniau ymlaen a chyhoeddi Cyllideb Llywodraeth Cymru yn gynt nag a drafodwyd yn flaenorol, yn amodol ar eich safbwyntiau chi a safbwynt y Pwyllgor Busnes. Byddai gan hyn y fantais o ddarparu cymaint o sicrwydd â phosibl i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i gefnogi eu blaengynllunio ariannol cyllidebol eu hunain. Fodd bynnag, rwy'n gwerthfawrogi y bydd y newid hwn yn effeithio ar yr amserlen graffu dros dro a bydd angen i bob Gweinidog fod mor hyblyg â phosibl o ran eu hargaeledd.

Mae Rheol Sefydlog 20.6 yn gwneud darpariaeth ar i'r Pwyllgor Busnes wneud newidiadau i'r amserlen ar gais y Llywodraeth a byddaf yn cysylltu â'r Pwyllgor Busnes yr wythnos hon. Fel y nodwyd yn flaenorol, gan addasu i gyfyngiadau amseru eleni, fy mwriad yw cyhoeddi'r Cyllidebau drafft amlinellol a manwl gyda'u gilydd. Bydd hyn yn ymarferol yn golygu un pecyn Cyllideb Ddrafft gyfunol. Yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

amodol ar eich barn ar y cynnig i ddod â'r Gyllideb ymlaen, byddem yn edrych i gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft ar 19 Tachwedd a'r Gyllideb derfynol ar 4 Chwefror 2020.

Rwy'n ymwybodol o Reol Sefydlog 20.5 a'r trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r cyfnod ar gyfer craffu ar y gyllideb. Dan amgylchiadau 'arferol', mae Rheol Sefydlog 20.5 yn darparu y dylai'r Pwyllgor Cyllid gael 8 wythnos i adrodd ar gynigion amlinellol y gyllideb a 5 wythnos i'r pwyllgorau ystyried cynigion manwl y gyllideb. Byddai'r amserlen ddiwygiedig rwyf wedi'u llunio yn caniatáu 8 wythnos i graffu ar y Gyllideb ddrafft, yn cynnwys 5 wythnos eistedd a 3 wythnos lle na fydd y pwyllgorau'n eistedd.

Wrth gynnig yr amserlen ddiwygiedig hon, hoffwn hefyd dynnu sylw'r Pwyllgor at yr heriau a'r ansicrwydd parhaus a allai barhau i darfu ar baratoadau'r Gyllideb eleni.

Mae cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer Cyllideb yr Hydref yn parhau'n aneglur i ni, o ran pryd y caiff ei chyhoeddi a'r potensial iddi gynnwys cyhoeddiadau ac addasiadau pellach a allai effeithio ar ein setliad yn y gyllideb ar gyfer 2020-21. Yn wir, dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wrth Bwyllgor Trysorlys Senedd y DU yr wythnos hon nad yw wedi cael cais eto i baratoi diweddariad o'r rhagolygon ar gyfer Cyllideb yr Hydref. Mae'n amlwg bod y Prif Weinidog yn barod i wthio'r DU dros y dibyn gyda Brexit heb gytundeb. Byddai hyn yn cael effaith drychinebus ar Gymru, a byddai'n rhaid i ni ystyried ein cynlluniau gwario ar gyfer y dyfodol yn ofalus iawn. At hynny, byddai cael Etholiad Cyffredinol yn y DU yn peri risgiau pellach y byddai gweinyddiaeth newydd yn cyflwyno cynlluniau gwario gwahanol yn y tymor byr.

Mae'r Protocol Proses y Gyllideb y cytunwyd arni rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod y bydd Cyllideb y DU fel arfer yn cael ei chyhoeddi ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chynigion cyllideb amlinellol a manwl a bod cyfanrwydd y broses graffu yn cael ei chynnal trwy ystyried unrhyw newidiadau sylweddol sy'n codi o ganlyniad i Gyllideb y DU yng nghyllideb atodol ddilynol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o ystyried maint y potensial, byddai hyn yn golygu bod angen i ni o bosib edrych ar ein cynlluniau gwario ein hunain ar fyrder, ac os mai dyma fydd yr achos, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn ei gylch.

Dymunaf fynegi fy siom bod dull gweithredu anhrefnus a dryslyd Llywodraeth y DU wedi fy ngorfodi i newid ein trefniadau fel y cytunwyd arnynt, gan effeithio arnom ni i gyd. Rwy'n croesawu'r gefnogaeth rydych eisoes wedi'i rhoi i mi, ac yn gobeithio bod y trefniadau hyn yn dderbyniol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a ydych yn cefnogi'r cam i ddwyn amserlen y Gyllideb ymlaen, a hynny cyn fy Natganiad Llafar ddydd Mawrth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd